Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Holiadur cyn-arolygiad - Ysgolion arbennig a gynhelir a ysgolion arbenigol annibynnol: Dysgwyr: Pupil (uwchradd)

Rho dy farn i ni am dy ysgol. Meddylia am dy brofiadau dy hun ac nid am brofiadau dy ffrindiau. Darllena bob brawddeg a rhoi tic yn y blwch sy'n cyfateb i dy farn. Does dim atebion cywir nac anghywir. I rai cwestiynau, byddi di'n gallu esbonio pam y dewisaist ti'r ateb hwnnw, os hoffet ti wneud hynny. Ateba'n onest.

Mae dy farn yn bwysig i ni. Byddwn ni'n darllen dy atebion ac yn eu defnyddio i ddysgu rhagor am yr ysgol. Hefyd, gallem ni ddefnyddio'r holiaduron hyn i'n helpu i ddeall beth yw barn disgyblion am ysgolion ar draws Cymru.

Mae'r holiadur yn ddienw. Dydyn ni ddim yn gofyn am dy enw. Mae hyn yn golygu bod dy atebion yn gyfrinachol.

Bydd arolygwyr Estyn yn:

- darllen dy atebion
- dweud wrth bobl eraill beth rwyt ti wedi'i ddweud dim ond os ydyn nhw'n poeni am dy ddiogelwch di neu am ddiogelwch disgybl arall. Os wyt ti'n poeni am unrhyw beth yn yr ysgol, mae'n bwysig dy fod ti'n siarad ag oedolyn yn yr ysgol neu gartref.

Bydd dy atebion yn cael eu cadw'n ddiogel yn ein cronfeydd data yn unol â'n polisi ar gadw data.

**I gael gwybodaeth am sut rydym ni'n trin dy wybodaeth bersonol, cyfeiria at ein hysbysiad preifatrwydd: Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)**

### 1. Grŵp blwyddyn

- [ ] Blwyddyn 7
- [ ] Blwyddyn 8
- [ ] Blwyddyn 9
- [ ] Blwyddyn 10
- [ ] Blwyddyn 11
- [ ] Blwyddyn 12
- [ ] Blwyddyn 13

### 2. Rwy'n mwynhau'r ysgol

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

### 3. Rwy'n teimlo'n ddiogel pan rwy' yn yr ysgol

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

### 4. Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn fy ngwersi

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

### 5. Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod egwyliau ac amser cinio

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

### 6. Wyt ti'n teimlo dy fod yn cael dy fwlio yn yr ysgol?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

Defnyddia'r lle gwag hwn os hoffet ti ddweud mwy am sut gwnaeth staff ddelio â hyn.

### 7. Petaet ti'n drist neu'n anhapus yn yr ysgol, gyda phwy byddet ti'n siarad? (galli di roi tic mewn mwy nag un blwch)

- [ ] Athro/athrawes
- [ ] Cynorthwyydd cymorth
- [ ] Ffrind
- [ ] Aelod o'r teulu
- [ ] Rhywun arall
- [ ] Neb

Defnyddia'r lle gwag isod os hoffet ti ddweud mwy wrthym ni am sut mae'r ysgol yn dy gynorthwyo di os nad wyt ti'n hapus yn yr ysgol:

**8. Mae'r gwaith rwy'n ei gael yn y rhan fwyaf o wersi...**

- [ ] Tua'r lefel gywir o ran pa mor anodd yw'r gwaith
- [ ] Yn rhy hawdd
- [ ] Yn rhy anodd

**9. Mae fy ngwersi i'n ddiddorol**

- [ ] Bob amser
- [ ] Yn aml
- [ ] Ambell waith
- [ ] Byth

**10. Mae staff yn annog disgyblion i barchu pobl o bob hil, rhywedd, rhywioldeb, crefydd, cefndir neu anabledd**

- [ ] Ydyn
- [ ] Nac ydyn

**11. Wyt ti'n teimlo dy fod ti'n cael dy drin yn annheg yn yr ysgol am unrhyw rai o'r rhesymau canlynol? (galli di roi tic mewn mwy nag un blwch)**

- [ ] Dy gefndir ethnig
- [ ] Dy grefydd
- [ ] Dy rywedd
- [ ] Dy gyfeiriadedd rhywiol
- [ ] Dy anabledd
- [ ] Dy angen dysgu ychwanegol
- [ ] Yr iaith rwyt ti'n ei siarad gartref
- [ ] Dim un o'r uchod

**12. Mae staff yn fy annog i i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol y tu allan i wersi, fel clybiau, chwaraeon, cerddoriaeth neu gelf**

- [ ] Ydyn
- [ ] Nac ydyn

**13. Mae oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar ein hawgrymiadau ac, weithiau, yn newid pethau pan fyddwn ni'n gofyn iddynt**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

**14. Mae fy ysgol yn fy helpu i wneud penderfyniadau am fy nghamau nesaf.**

**Er enghraifft, symud grŵp blwyddyn neu ysgol, dewis cymwysterau at y dyfodol, mynd i'r brifysgol neu opsiynau addysg a hyfforddiant eraill, fel prentisiaethau, neu chwilio am swydd.**

- [ ] Ydy
- [ ] Nac ydy

**15. Defnyddia'r lle gwag isod i ddweud unrhyw beth arall wrthym ni am dy ysgol**

## Darllenwyr sy'n Datblygu

**16. Rydw i'n mwynhau darllen, edrych ar lyfrau, storiau, lluniau neu weithgareddau darllen eraill yn yr ysgol.**

- [ ] Cytuno

- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**17. Mae oedolion yn fy helpu gyda darllen mewn ffordd sy'n gweithio i mi.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**18. Rydw i'n gallu dewis fy llyfrau a'm deunyddiau darllen fy hun.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**19. Rydw i'n mwynhau pan fydd oedolion yn darllen i mi neu'r dosbarth.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**20. Rydw i'n teimlo'n hapus neu'n falch pan fyddaf yn gwneud fy ngorau gyda darllen.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**21. Rydw i'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf i ddeall a gwella fy narllen.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**22. Rydw i'n gwybod beth sydd angen i mi ei wneud i ddarllen yn well.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**23. Rydw i'n defnyddio darllen mewn gwersi gwahanol.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**24. Rydw i'n gwybod sut gall darllen fy helpu mewn bywyd bob dydd.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**25. Rydw i'n darllen, yn edrych ar lyfrau neu'n gwrando ar storïau gartref.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

## Darllenwyr Hyderus

**26. Rydw i'n mwynhau darllen yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**27. Rydw i'n gallu dewis beth rydw i eisiau ei ddarllen gartref ac yn yr ysgol.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**28. Mae'r ysgol yn dangos bod darllen yn bwysig ac yn bleserus.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**29. Rydw i'n darllen i ddysgu am bethau sydd o ddiddordeb i mi ac sy'n fy helpu i ddysgu.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**30. Rydw i'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf pan fydd darllen yn anodd.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**31. Mae darllen yn fy helpu i ddysgu ar draws gwahanol bynciau.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**32. Rydw i'n gwybod beth sydd angen i mi ei wneud i ddarllen yn well.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**33. Rydw i'n darllen er mwynhad yn yr ysgol a'r tu allan i wersi.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

**34. Rydw i'n deall sut mae'r gweithgareddau a'r deunyddiau darllen sy'n cael eu defnyddio yn yr ysgol yn fy helpu i wella.**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Ddim yn siŵr

Diolch i ti am lenwi'r holiadur hwn. Mae gennym ni ddiddordeb mewn pwy wyt ti hefyd. Dydyn ni ddim yn gofyn am dy enw, ond hoffen ni wybod beth yw dy oedran, dy ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol, a dy grefydd.

Does dim rhaid i ti ateb y cwestiynau hyn.

Y rheswm rydyn ni'n gofyn y cwestiynau hyn yw er mwyn ein helpu i ddeall sut mae grwpiau gwahanol o ddisgyblion ar draws Cymru yn teimlo am eu hysgol. Er enghraifft, y gwahaniaeth rhwng atebion bechgyn a merched.

**35. Hoffech chi barhau?**

- [ ] Ydw, rwy'n hapus i ateb mwy o gwestiynau
- [ ] Nac ydw, hoffwn gwblhau'r arolwg nawr

**36. Beth yw dy oedran di?**

- [ ] 11
- [ ] 12
- [ ] 13
- [ ] 14
- [ ] 15

- [ ] 16
- [ ] 17
- [ ] 18
- [ ] 19
- [ ] Dydw i ddim eisiau ateb

Mae gennym ni ddiddordeb yn dy hunaniaeth a sut rwyt ti'n gweld dy hun. Yn gyntaf, hoffen ni wybod am dy rywedd.

**37. Wyt ti'n...? Gelli di dicio mwy nag un.**

- [ ] Bachgen
- [ ] Merch
- [ ] Dydw i ddim yn gwybod
- [ ] Dydw i ddim eisiau ateb
- [ ] Rydw i'n disgrifio fy hun fel

Mae gennym ni ddiddordeb yn dy ethnigrwydd a dy hunaniaeth genedlaethol hefyd.

Er enghraifft, mae rhai pobl yn ystyried eu hunain yn Ddu, mae rhai pobl yn ystyried eu hunain yn Asiaidd ac yn Gymreig, ac efallai y bydd rhai pobl yn ystyried eu hunain yn Tsieineaidd ac yn Brydeinig.

**38. Sut byddet ti'n disgrifio dy hun? Gelli di dicio mwy nag un.**

**Rydym yn defnyddio'r geiriau "Sipsiwn, Roma neu Deithiwr" oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffurflenni cenedlaethol, fel y Cyfrifiad. Mae'r geiriau hyn yn cynnwys gwahanol grwpiau o bobl a allai fod â gwahanol deuluoedd a ffyrdd o fyw. Os nad yw'r geiriau hyn yn addas ar eich cyfer chi, gallwch ddewis yr opsiwn "Rydw i'n disgrifio fy hun fel..." ac ysgrifennu'r geiriau sy'n eich disgrifio chi orau.**

- [ ] Arabaidd
- [ ] Asiaidd
- [ ] Bangladeshaidd
- [ ] Du
- [ ] Du Affricanaidd
- [ ] Du Caribïaidd
- [ ] Prydeinig
- [ ] Tsieineaidd
- [ ] Cenedligrwydd deuol

- [ ] Seisnig
- [ ] Sipsi neu Deithiwr Roma
- [ ] Indiaidd
- [ ] Gwyddelig
- [ ] Treftadaeth gymysg
- [ ] O Ogledd Iwerddon
- [ ] Pacistanaidd
- [ ] Pwylaidd
- [ ] Albanaidd
- [ ] Wcreinaidd
- [ ] Cymreig
- [ ] Gwyn
- [ ] Dydw i ddim eisiau ateb
- [ ] Dydw i ddim yn gwybod
- [ ] Rydw i'n disgrifio fy hun fel

**39. Hoffen ni wybod am dy grefydd. Wyt ti'n...? Gelli di dicio mwy nag un.**

- [ ] Bwdhaidd
- [ ] Cristion
- [ ] Hindŵaidd
- [ ] Mwslimaidd
- [ ] Iddewig
- [ ] Sikh
- [ ] Does gen i ddim crefydd
- [ ] Dydw i ddim eisiau ateb
- [ ] Rydw i'n disgrifio fy hun fel:

Mae gennym ni ddiddordeb mewn anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol.
Er enghraifft, mae rhai pobl yn cael cymorth ychwanegol yn y dosbarth.

**40. Oes gen ti anabledd neu angen dysgu ychwanegol (ADY)? Gelli di dicio mwy nag un.**

- [ ] Mae gen i anabledd
- [ ] Mae gen i angen dysgu ychwanegol
- [ ] Does gen i ddim anabledd nac angen dysgu ychwanegol
- [ ] Dydw i ddim eisiau ateb

## 41. Pa ieithoedd mae dy deulu yn siarad gartref? Gelli di dicio mwy nag un

- [ ] Arabeg
- [ ] Bengaleg
- [ ] Iaith Arwyddion Prydain
- [ ] Saesneg
- [ ] Pwyleg
- [ ] Rwmaneg
- [ ] Wcreineg
- [ ] Wrdw
- [ ] Cymraeg
- [ ] Dydw i ddim eisiau ateb
- [ ] Rydyn ni'n siarad:

## 42. Pa mor hyderus wyt ti'n teimlo fel arfer wrth siarad Cymraeg?

- [ ] Hyderus iawn
- [ ] Eithaf hyderus
- [ ] Ddim yn hyderus iawn
- [ ] Ddim yn hyderus o gwbl
- [ ] Dwi byth yn siarad Cymraeg
- [ ] Dydw i ddim eisiau ateb